**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2022/23**

1. **Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 7 Chwefror 2022 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

2. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.3m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, a cynnydd cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%. Bydd hyn yn cyfarch cost cynnydd o 1.75% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021, ac hefyd cost cynnydd o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2022 (am y 7 mis Medi 2022 – Mawrth 2023). Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.

3. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £168k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 oherwydd incrementau net o drosiant staff. Bydd **£162k** o'r ychwanegiad yma'n mynd i gyllidebau ysgolion.

4. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2021 i gyfrifo dyraniadau 2022/23. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau **£57k**, sy'n cynnwys lleihad -£429k i'r sector Gynradd a chynnydd +£372k i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

5. **Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2022/23 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£457.6k**, er mwyn ariannu cost uwch cludiant tacsis a threnau i ddisgyblion (£150k), Swyddog Addysg Uwchradd (£89.5k) a dileu costau'r Tocyn Teithio Ôl-16 (£218.1k). Yn ychwanegol i hynny, argymhellir ariannu swyddog hybu Cinio am Ddim gydag arian un-tro (£43k).

6. **Dim Arbedion Newydd:** Unwaith eto eleni, wrth ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi gofyn i ysgolion Gwynedd am arbedion newydd ychwanegol. Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 yng nghyd-detun 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £32.8m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor).

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2022/23 ar lefel tebyg i 2021/22.

8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn sylweddol uwch yn 2022/23 na lefel 'cash' 2021/22, ond yn eithaf tebyg mewn termau 'real' (gan fod y bidiau argymhellir eu cymeradwyo ar benawdau sydd heb eu datganoli).